**DISGRIFIAD SWYDD: Interniaethau Dyfodol Morol Gogledd Cymru X2**

**Cyflog:** £12.60 yr awr (Cyflog Byw Real) gyda Chyfraniad Pensiwn o 6%
**Oriau Gwaith:** Llawn Amser (35 awr yr wythnos) yn y cyfnod o 23ain o Fehefin – 23ain o Ragfyr 2025
**Lleoliad:** Bydd y ddwy Interniaeth wedi'u lleoli yn bennaf ym Mhencadlys YNGC ym Mangor gyda chymysgedd o waith maes ar draws Gogledd Cymru a rhywfaint o deithio i Lundain a Chaerdydd.

*Sylwch fod yna nifer o raglenni ledled y wlad, pob un wedi'u rhestru ar dudalen gwe Interniaeth Stad y Goron. Mae'r rhaglenni interniaeth i gyd yn unigryw ond mae rhywfaint o gydgysylltu ar draws y bedair rhaglen. Mae'r porth ymgeisio ar gyfer pob un o'r bedair interniaeth ond dewiswch eich lleoliad dymunol ar y ffurflen gais.*

**1. CEFNDIR A PHWRPAS CYFFREDINOL Y SWYDD**

Mae'r rhaglen Interniaeth Dyfodol Morol yn cynnig cyfle unigryw i ymgeiswyr sydd â diddordeb mewn gyrfa yn yr amgylchedd morol ddysgu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad ar draws amrywiaeth o sectorau morol, gan helpu fel sail i lunio cyfleoedd gyrfaol yn y dyfodol.

Cyllidir y Rhaglen gan Stad y Goron ac mae'n cael ei rheoli gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru a chaiff ei gweithredu mewn partneriaeth â Stad y Goron, M-SParc, Menter Môn a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Mae pob sefydliad partner yn darparu cyfleoedd i'r intern ddatblygu sgiliau yn y gwaith mewn meysydd arbenigol, gan gynnwys cyngor cadwraeth forol, pysgodfeydd cynaliadwy, datblygu ynni adnewyddadwy, polisi morol, ac ymgysylltu â chymunedau. Drwy'r rhaglen bydd yr intern yn cael cynnig profiad a golwg gytbwys ar yrfa yn yr amgylchedd morol a sut gall gwahanol sectorau gydweithio. Bydd yr intern yn cael cyfle i ymgymryd â phrosiect ymchwil annibynnol yn canolbwyntio ar bwnc sy'n berthnasol i bob partner. Bydd gweithgareddau ychwanegol yn cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid, creu deunyddiau allgymorth addysgol rhithwir a gwaith maes ecolegol.

**2. PRIF GYFRIFOLDEBAU**

- Cynnal prosiect ymchwil annibynnol ar y cyd ar gyfer y sefydliadau partner
- Cyfathrebu canlyniadau ac argymhellion y prosiect ymchwil drwy adroddiad ysgrifenedig a chyflwyniad llafar ar gyfer yr holl sefydliadau partner a rhanddeiliaid perthnasol
- Sicrhau gwell dealltwriaeth o yrfaoedd sy'n ymwneud â'r sector morol
- Gwella gwybodaeth am ddatblygiadau ynni adnewyddadwy a rhai o'r ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd sy'n gysylltiedig â'r rhain
- Sicrhau dealltwriaeth drylwyr o rai o'r problemau amgylcheddol sy'n wynebu arfordiroedd a moroedd y DU, yn enwedig mewn perthynas â Gogledd Cymru a Môr Iwerddon
- Cael profiad o arolygu gwyddonol a GIS ochr yn ochr â'r sefydliadau partner
- Cyflwyno ymwybyddiaeth forol ac allgymorth addysgol ochr yn ochr ag Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
- Cynorthwyo Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru gyda phrosiectau cadwraeth ac adfer allweddol
- Sicrhau gwell dealltwriaeth o'r broses gydsynio ar gyfer ynni adnewyddadwy morol
- Sicrhau dealltwriaeth o weithio o bell a chyfarfodydd ar-lein drwy weithio gyda chydweithwyr o bob un o'r sefydliadau partner, gan ffurfio rhwydwaith o gysylltiadau yn y sector morol
- Cynhyrchu gwybodaeth, adnoddau a deunydd hyrwyddo yn ôl yr angen
- Ymgymryd â dyletswyddau a chyfrifoldebau eraill fel sy'n briodol ac yn gyson ag amcanion y rhaglen a'r sefydliadau priodol
- Sicrhau bod Gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch yn cael eu dilyn a'u gweithredu fel sy'n briodol.

### 3. GOFYNION PERSONOL

| Meini Prawf | Hanfodol<br>Dylai deiliad y swydd fod â’r canlynol: | Dymunol<br>Dylai deiliad y swydd fod â’r canlynol: |
|---|---|---|
| **Cymwysterau a Phrofiad** | • Gradd mewn pwnc morol neu amgylcheddol perthnasol neu brofiad cyfatebol | Profiad o:<br>• Gweithio neu wirfoddoli yn y sector amgylcheddol<br>• Trefnu a chyflwyno digwyddiadau<br>• Defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn broffesiynol<br>• Cynnal ymchwil desg |
| **Gwybodaeth, Sgiliau a Galluoedd** | • Gwybodaeth glir am gadwraeth forol, ynni adnewyddadwy, newid hinsawdd a / neu faterion pysgodfeydd cynaliadwy a diddordeb ynddynt<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth o adnoddau morol a defnyddwyr y môr<br>• Sgiliau cyfathrebu rhagorol, yn ysgrifenedig ac ar lafar, gyda'r gallu i feithrin perthnasoedd gwaith cadarn ac ymgysylltu â phobl ar bob lefel, yn fewnol ac yn allanol<br>• Sgiliau trefnu rhagorol gyda'r gallu i nodi blaenoriaethau a rheoli baich gwaith amrywiol, gan gynnal lefel uchel o fanwl gywirdeb a sylw i fanylder<br>• Dealltwriaeth o ddiwylliant Cymru a’r iaith Gymraeg gyda'r gallu i weithio o fewn tîm dwyieithog neu ymrwymo i ddysgu | • Mae’r gallu i siarad, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg yn ddymunol<br>• Dal Trwydded Yrru gyfredol<br><br>Gwybodaeth am:<br>• Ardaloedd arfordirol yng Nghymru<br>• Prosesau ymgysylltu â rhanddeiliaid |
| **Cyffredinol** | • Gallu cynnal lefelau uchel o frwdfrydedd a hunan-gymhelliant<br>• Y gallu i weithio ar ei liwt ei hun a chydweithio fel aelod o dîm<br>• Bod yn hawdd siarad â chi, yn gyfeillgar a dangos pwyll a diplomyddiaeth wrth ymdrin ag aelodau'r cyhoedd a rhanddeiliaid<br>• Agwedd aeddfed a hyblyg at waith<br>• Parodrwydd i weithio yn yr awyr agored ar amrywiaeth o safleoedd ym mhob tywydd | |

### 4. TELERAU AC AMODAU

**Cyflog:** Cyflog Byw Real - £12.60 yr awr, a hefyd cyfraniad pensiwn o 6%.

**Hyd y swydd:** 5 diwrnod yr wythnos am 6 mis yn dechrau ar 23ain o Fehefin 2025 ac yn gorffen ar 23ain o Ragfyr 2025. Bydd disgwyl i’r interniaid ymrwymo i hyd llawn y rhaglen.

**Oriau yr wythnos:** Bydd yr intern yn cael tâl fesul awr am 35 awr yr wythnos, yn seiliedig ar weithio 7 awr y dydd, 5 diwrnod yr wythnos. Fel rheol bydd yr oriau'n cael eu gweithio rhwng 9.00yb a 5.00yp, o ddydd Llun i ddydd Gwener, fodd bynnag, efallai y bydd angen rhywfaint o waith y tu allan i oriau, a rhoddir amser i ffwrdd yn lle hynny.

**Gwyliau:** 30 diwrnod y flwyddyn, gan gynnwys gwyliau cyhoeddus.

**Man gwaith:** Bydd y ddwy Interniaeth wedi'u lleoli yn bennaf ym Mhencadlys YNGC ym Mangor gyda chymysgedd o waith maes ar draws Gogledd Cymru a rhywfaint o deithio i Lundain a Chaerdydd.

**Treuliau:** Efallai y bydd disgwyl i'r interniaid drefnu a thalu am eu llety a'u teithio eu hunain drwy gydol yr interniaeth. Bydd yr interniaid yn cael eu had-dalu am deithio fel rhan o'r rhaglen o'u gweithle (er enghraifft, wrth deithio ar gyfer digwyddiadau, cyfarfodydd ac arolygon). O dan rai amgylchiadau, mae'n bosibl y bydd costau cynhaliaeth ychwanegol yn gysylltiedig â'r rhaglen, a bydd y rhain yn cael eu had-dalu lle bo hynny'n briodol yn unol â pholisi treuliau Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru a rhaid gofyn am gymeradwyaeth gan Reolwr y Prosiect cyn gwariant.

Bydd yr holl ofynion teithio a llety ar gyfer teithiau i Lundain (os yw hynny'n bosibl yn ystod yr interniaeth) yn dod o dan Stad y Goron. Bydd unrhyw gostau ychwanegol, lle bo hynny'n rhesymol, fel costau cynhaliaeth ar gyfer teithio i Lundain, yn cael eu had-dalu.

**Ceisiadau:** Dylid cyflwyno'r ffurflenni cais wedi'u cwblhau a'u yrru i **marinefutures@cumbriawildlifetrust.org.uk**

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw hanner dydd Ddydd Gwener 11eg o Ebrill 2025.

**Bydd y cyfweliadau'n cael eu cynnal ar 28ain o Ebrill 2025.**

Gofynnir i'r ymgeiswyr sy'n cyrraedd y rhestr fer am gyfweliad ddatgan unrhyw euogfarnau troseddol sydd heb ddod i ben.

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau pellach at Nia Hâf Jones, y Rheolwr Moroedd Byw, ar e-bost drwy:
nia.jones@northwaleswildlifetrust.org.uk